O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2016 Rhif 648 (Cy. 176)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffyrdd yr A483 a'r A458 (y Trallwng, Powys) (Gwahardd a Chyfyngu ar Gerbydau a Cherddwyr Dros Dro) 2016

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *3 Mehefin 2016* |
| *Yn dod i rym* | *19 Mehefin 2016* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Abertawe – Manceinion (yr A483) a Chefnffordd yr Amwythig – Dolgellau (yr A458) ("y cefnffyrdd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd yr holl draffig ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd a/neu gyfyngu arno tra cynhelir Sioe Awyr y Trallwng.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 19 Mehefin 2016. Ei enw yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A483 a'r A458 (y Trallwng, Powys) (Gwahardd a Chyfyngu ar Gerbydau a Cherddwyr Dros Dro) 2016.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaharddiad" (*"prohibition period"*) yw'r cyfnod sy'n dechrau am 06:00 o'r gloch ar 19 Mehefin 2016 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith;

ystyr "y darnau o'r cefnffyrdd" ("*the lengths of the trunk roads"*) yw'r darnau hynny o gefnffyrdd yr A483 a'r A458 yn y Trallwng yn Sir Powys a ddisgrifir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl

neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

### Gwaharddiad a Chyfyngiad

**3**. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaharddiad, ac eithrio yn ôl cyfarwyddyd neu gyda chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd stopio, ar gerbytffordd y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**4**. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaharddiad, ac eithrio yn ôl cyfarwyddyd neu gyda chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn am gyfnod sy'n fwy na 45 o funudau mewn unrhyw gyfnod o 1 awr 45 o funudau.

**5**. Ni chaniateir i neb, yn ystod cyfnod y gwaharddiad, aros ar lain ymyl y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlenni 1 a 2 i'r Gorchymyn hwn.

### Cymhwyso

**6.** Ni fydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny a ddangosir gan arwyddion traffig.

### Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

**7.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 6 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 3 Mehefin 2016

*Richard Morgan*
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## ATODLEN 1

## CLIRFFORDD

Y darn hwnnw o'r A483 sy'n ymestyn tua 4,350 o fetrau o Gylchfan The Old Station, y Trallwng, drwy Gylchfan Sarn y Bryn Caled a chan ei chynnwys hyd at ganolbwynt cyffordd Trehelig Lane, yn sir Powys.

Y darn hwnnw o'r A458 sy'n ymestyn tua 1,140 o fetrau o Gylchfan Sarn y Bryn Caled hyd at ganolbwynt cyffordd Red Lane (i'r Castell Coch), yn sir Powys.

## ATODLEN 2

## CYFYNGIADAU AROS

Y darn cyfan hwnnw o gilfan cerbytffordd tua'r de yr A483 rhwng cylchfannau The Old Station a Sarn y Bryn Caled, yn sir Powys.

Y darn cyfan hwnnw o gilfan cerbytffordd tua'r gogledd yr A483 rhwng cylchfannau Sarn y Bryn Caled a The Old Station, yn sir Powys.

Y darn cyfan hwnnw o gilfan cerbytffordd tua'r de yr A483 rhwng The Moat Farm a Trehelig Lane, yn sir Powys.